Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Tiwtor >**

Ble Dych Chi'n Gweithio?

Perthynas â Chyrsiau CBAC

Cwrs Mynediad CBAC. Bydd yr ymarfer hwn yn addas ar ôl Uned 6.

Dull

Gwaith dosbarth neu waith cartref.

Dylid rhoi cerdyn 'gweithle' i bawb yn y dosbarth. Dylid rhoi'r rhestr gyfan o weithleoedd ar y wal neu eu hysgrifennu'n fawr ar fwrdd gwyn/fwrdd du.

Gwaith pob myfyriwr ydy darganfod ble mae pawb arall yn gweithio. Does dim modd gofyn cwestiynau uniongyrchol *(e.e. Ble dych chi'n gweithio?)*

Rhaid gofyn *'Dych chi'n gweithio…?/Wyt ti'n gweithio…?* Dylai pawb barhau i ofyn cwestiynau nes dyfalu'n gywir.

Ar ôl dyfalu rhaid gofyn o leiaf UN cwestiwn atodol i estyn y sgwrs.

e.e. Dych chi'n nabod…?
Dych chi'n gweithio bob dydd?
Dych chi'n gweithio gyda'r nos?
Dych chi'n hoffi'r gwaith?

Mater i'r tiwtor ydy awgrymu cwestiynau posib.

Taflen y Tiwtor

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Ble Dych Chi'n Gweithio?

Mewn banc yn y dre	Mewn swyddfa yn y dre
Mewn siop yn y ddinas	I Jones a Derbyshire
Mewn clwb yn y dre	I'r cyngor lleol
Ar fferm yn y wlad	Yn Ysbyty Tregynan
I S4C	Yn Ysgol Coed y Llan
I Richards, John a Hardy Cyf	Yn Eglwys Dewi Sant
Mewn canolfan garddio	Yn siop Dafydd Edwards
Mewn canolfan hamdden	Yn Ffatri WidjetPlus

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Ble Dych Chi'n Gweithio?

Mewn banc yn y dre

Mewn siop yn y ddinas

Mewn clwb yn y dre

Ar fferm yn y wlad

I S4C

I Richards, John a Hardy Cyf

Mewn canolfan garddio

Mewn canolfan hamdden

Mewn swyddfa yn y dre

I Jones a Derbyshire

I'r cyngor lleol

Yn Ysbyty Tregynan

Yn Ysgol Coed y Llan

Yn Eglwys Dewi Sant

Yn siop Dafydd Edwards

Yn Ffatri WidjetPlus